29ain o Fawrth 2021

Annwyl Gynghorydd,

Gwysir chwi i gyfarfod o Gyngor Tref Frenhinol Caernarfon i'w gynnal Nos Fawrth, 6ed o Ebrill 2021 am 6.00 o'r gloch yr hwyr.

Oherwydd Covid-19 bydd y cyfarfod yn cymryd lle o'ch cartref, ar lein drwy ddefnyddio system "Zoom".

Bydd gwahoddiad ffurfiol i'r sustem trwy "Zoom" yn cael ei anfon atoch cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

Yn gywir,

Sion Wyn Evans
Clerc y Dref

Rhaglen

1.Ymddiheuriadau

2.Cyhoeddiadau'r Maer

3.Datgan Buddiant Personol

4.Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc). Er gwybodaeth neu i'r Clerc weithredu. Ni chaniateir penderfyniadau

5.Cofnodion

I gadarnhau y cofnodion canlynol (yng nghefn y rhaglen):-

(i) Cyngor Llawn, 2il o Fawrth 2021 (**Atodiad Gwyrdd**).
(ii) Pwyllgor Gwaith, 9fed o Fawrth 2021 (**Atodiad Glas**).
(iii) Pwyllgor Adloniant, 23ain o Fawrth 2021 (**Atodiad Pinc**).

6.Cyfrifon

I gymeradwyo'r biliau rhoddion a chyflogau i'w talu.

7. Cyfrifon Incwm a gwariant a chysoni cyfrifon

8. Maerolaeth 2021/22

(i) Maerolaeth 2021/22.
(ii) Cyfarfod Blynyddol.

9. Aelodaeth Un Llais Cymru 2021/22

Cyflwyno gohebiaeth gan Un Llais Cymru i adnewyddu aelodaeth ar gyfer 2021/22 (copi ynghlwm). Mae'r e-bost eisoes wedi ei anfon allan at aelodau.

10. Cynllun Eryri

Cyflwyno gwybodaeth am Gynllun Rheoli Parc Cenedlaethol Eryri (copi ynghlwm).

11. Cylch Cyfeillgarwch Trefi Caerog Gogledd Cymru

Cyflwyno, er gwybodaeth gofnodion drafft o'r cyfarfod o Gylch Cyfeillgarwch Trefi Caerog Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar y 10fed o Fawrth, 2021 (copi ynghlwm).

Tynnir sylw'r aelodau at y materion canlynol y bydd angen eu trafod:

- Ymweliad Iwerddon
- Cyfranogiad plant, oedolion ifanc a'r gymuned mewn digwyddiadau

12. Toiledau Cyhoeddus

Cyflwyno llythyr ynglŷn â chytundeb 2021/22 (copi ynghlwm).

13. Gwersyll Gwyliau Ferodo

Cyflwyno gohebiaeth gan Gylch yr Iaith ynglŷn â Gwersyll Gwyliau Ferodo (copi ynghlwm).

14. Arolwg Cysylltedd Digidol

Cyflwyno gwybodaeth am yr uchod (copi ynghlwm).

15. Calendr y Cyngor

Cyflwyno calendr y Cyngor ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod (copi ynghlwm).

16. Cytundeb Lefel Gwasanaeth rhwng Cyngor Tref Caernarfon a Chyngor Gwynedd ar gyfer darparu system Teledu Cylch Cyfyng Mannau Cyhoeddus

Cyflwyno copi o'r cytundeb diweddaraf (copi ynghlwm).

17. Gŵyl Arall

Cyflwyno adroddiad y Clerc yn rhoi'r wybodaeth er mwyn i'r aelodau benderfynu os am gyfrannu at Gŵyl Arall yn 2020/21 (copi ynghlwm).

18. Ysgol Syr Hugh Owen

Cyflwyno adroddiad y Clerc yn rhoi'r wybodaeth ar y cysylltiadau sy'n cael eu datblygu gydag Ysgol Syr Hugh Owen (copi ynghlwm).

19. Cwestiynau

20. Cau Allan y Wasg a'r Cyhoedd

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Rhan 4, Atodlen 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972.

21. Grant CaerAilGyfle

Cyflwyno adroddiad y Clerc yn rhoi diweddariad ar yr uchod (copi ynghlwm).

22. Goleuadau Nadolig

Cyflwyno'r gwaith papur fydd yn mynd allan o ran gwahodd tendrau ar gyfer cyflenwi Goleuadau Nadolig rhwng 2021 a 2023 (copi ynghlwm).